
# Parc Coedwig **Coed y Brenin** Forest Park

# Glasdir

## Parc Coedwig **Coed y Brenin** Forest Park




Mae'r parc coedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosibilrwydd y dewch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.

The forest park is a mixed-use site, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741. 2015

## Llwybr Copr **Glasdir** Copper Trail

### Llwybr Copr Glasdir | Glasdir Copper Trail

Dilynwch yr arwyddion coch

Follow the red waymarker symbol

**Cymedrol**
Pellter: ¾ milltir/1.2km
Amser: 45 munud
Dringo: 230tr/70m

**Moderate**
Distance: ¾ miles/1.2km
Time: 45 minutes
Climb: 230ft/70m

UCHAFBWYNTIAU:
**Dyma gyfle i chi ddarganfod hen gwaith copr mewn man tawel yng nghanol y wlad.**

**DISGRIFIAD:** O'r maes parcio, croeswch y ffordd i weirglodd a safle picnic Ty'n-y-buarth, a dilynwch y llwybr coch i lawr at Afon Babi lle, yn ôl traddodiad lleol, y cipiodd y tylwyth teg faban ffarmwr lleol a gadael un o'u babanod eu hunain yn ei le.

Dilynwch y nodwyr llwybr o amgylch yr hen weithfeydd copr gan godi, ar hyd llwybr garw â rhes hir o risiau, i fyny i'r haen uwch a'r olygfan sy'n cynnig golygfa ar draws yr holl safle a chwm yr afon islaw.

HIGHLIGHTS:
**Discover an old copper works in a peaceful rural setting.**

**DESCRIPTION:** From the car park cross the road into Ty'n y Buarth meadow and picnic site and follow the red trail down to the Afon Babi – river of the baby – where local folklore says a fairy baby was exchanged for a local farmers child.

Follow the waymarkers around the old copper workings rising, along a rough path with long flights of steps, to the upper tier where a viewpoint offers a vista over the whole site and river valley below.

Llwybrau Clywedol • Audio Trails MP3

CYMRU | WALES PlaceTales

Lawrlwythwch ein **hap ffôn clyfar PlaceTales Cymru|Wales NRW di-dâl** i glywed am y mwynglawdd bach a chanddo ddylanwad byd-eang.

Download our **free PlaceTales Cymru|Wales NRW Smartphone app** to hear about the little mine with worldwide impact.

### Llwybr Hygyrch Glasdir | Glasdir Accessible Trail

Dilynwch yr arwyddion glas

Follow the blue waymarker symbol

**Hygyrch**
Pellter: ½ milltir/850m
Amser: 30 munud
Graddiant mwyaf: 10%

**Accessible**
Distance: ½ mile/850m
Time: 30 minutes
Max gradient: 10%

Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at yr olygfan o faes parcio Pont Llam yr Ewig, sydd ar gyfer yr anabl yn unig. Mae hwn wedi'i leoli wrth ymyl y bont uchaf sy'n croesi Afon Babi. Mae'r llwybr wedi'i adeiladu'n ôl safonau 'Cefn Gwlad i Bawb' gyda graddiant rhwydd (10% / 1 mewn 10 ar y mwyaf).

Wheelchair-user access to the viewpoint is available from the disabled-only Pont Llam yr Ewig car park next to the upper bridge across the River Babi. The trail is built to 'Countryside for All' standards with an easy gradient (max 10% /1 in 10).

**Cadwch at y llwybr hwn gan fod mwyngloddiau yn beryglus ac mae sawl dibyn yma.**

**Please keep to the trail as mine workings are dangerous places with sheer drops.**




This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741. 2015

## Croeso i Glasdir

Croeso i Glasdir, neu'r 'tir glas'. Dilynwch ein harwyddion a chroeswch y ffordd at ein safle picnic hyfryd ger y nant. Beth am ddilyn ein llwybr sydd wedi'i farcio a darganfod yr hen fwynglawdd copr? Rydym wedi creu mynediad pob gallu i'r olygfan o faes parcio Pont Llam yr Ewig ger y bont uchaf ar draws Afon Babi (gweler y map).

## Welcome to Glasdir

Welcome to Glasdir, which means 'very green land'. Follow the waymarkers across the road to our lovely streamside picnic site. Why not follow our waymarked trail to discover the old copper mine? We have created all-ability access to the viewpoint from the Pont llam yr ewig car park next to the upper bridge across the Babi (see map).



LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

CYMRU | WALES PlacesToGo®

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES PlaceTales®

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

Diwydiant Industry

Dilynwch y stori
Follow the story

parcio / parking
gwybodaeth / information
mynediad rhwydd / easy access
parcio mynediad hawdd / easy access parking
toiledau / toilets
llwybrau - mynediad rhwydd / easy access trails
ffôn / telephone
caffi / café
lle picnic / picnic area
maes chwarae / play area
barbeciw / barbecue
golygfan / viewpoint
1 - 9 Pyst Marcio Llwybr Cywedol MP3 / MP3 Audio Trail marker posts

Coed y Brenin

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government